## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**ST 14**

**Ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi**

**Tystiolaeth gan : Dirprwy Brifathro**

<u>Cwestiynau'r ymgynghoriad</u>

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 1** – Beth yw eich barn ar ba mor gyffredin yw'r defnydd o athrawon cyflenwi, wedi'i gynllunio a heb ei gynllunio? | |
| Cyffredin iawn yn y ddau achos. Heb ei gynllunio er mwyn ufyddhau gyda pholisi prin cyflenwi | |
| Os ydych o'r farn bod hyn yn arwain at broblemau (er enghraifft, ar gyfer ysgolion, disgyblion neu athrawon), sut y gellir eu datrys? | |
| Ydy mae hyn yn arwain at broblemau di-ri, rydyn ni'n ysgol sydd wedi llwyddo i raddau i adeiladau tim o athrawon cyflenwi gellid dibynnu arnynt i ddysgu a chadw trefn. Serch hynny fach iawn yw'r tim ac mae'n newid yn gyson ohwrwydd mae sefydliadau eraill yn apwyntio'r bobl yma i swyddi. Golyga hyn bod eich tim yn mynd i gynnwys bobl na fyddwch yn apwyntio i staff amser llawn yr ysgol am amryw o resymau dilys.<br><br>Byddai cael gwared neu addasu'r prin cyflenwi yn rhoi mwy o drefn a mwy o reolaeth. | |
| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) | |
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | x |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |

| |
|---|
| **Cwestiwn 2 –** Beth yw eich barn ar yr amgylchiadau pan ddefnyddir athrawon cyflenwi? Er enghraifft: y math o ddosbarthiadau maent yn dysgu; y math o weithgareddau dysgu sy'n digwydd dan oruchwyliaeth athrawon cyflenwi; a ydynt yn gymwys i addysgu pynciau perthnasol. |
| O dan rheolau prin cyflenwi does dim llawer o ddewis am y math o ddosbarth mae'r staff yn dysgu, wrth gwrs fe gwneir awdit boreuol er mwyn sicrhau bod pethau yn redeg yn llyfn ac er mwyn lleihau'r problemau , yn aml golyga hyn gyda dosbarthiadau heriol mae'r tim arwain sydd yn cyflenwi.<br><br>Prin iawn y gellid trefnu bod staff cyflenwi ag arbenigedd yn y pwnc maent yn dysgu, gosodir rheolau ar y cychwyn ee dim gemau os yn dysgu Add Gorff, (perygl damwain) dim arbrofion os mewn labordy a disgwylir i staff sydd yn gadael gwersi sicrhau bod digon o waith ystyriol ac addas i'r dysgwyr. Gellid dweud bod trefnu hyn ar gyfer ysgol o 1000 o ddysgwyr a 70 o staff yn swydd amser llawn. |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? |
| Mae yna problemau, ac mae hyn yn deillio o ddiffyg ricriwtio pobl addas i'r proffesiwn. |

| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) | |
|---|---|
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | X |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |

| |
|---|
| **Cwestiwn 3 –** Beth yw eich barn ar effaith y defnydd o athrawon cyflenwi ar ganlyniadau disgyblion (gan gynnwys unrhyw effaith ar ymddygiad disgyblion)? |
| Mae defnydio athrawon anghyfarwydd / diethr i'r ysgol a'i systemau yn cael effaith negyddol o ran disgyblaeth ac o ran ymddygiad. |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? |
| Pe bai digon o arian yn yr ysgol yr ateb perffaith yw cyflogi tim (3 pherson fyddai'n delfrydol ar gyfer ysgol o 1000 o ddysgwyr – 2 os yw arian yn brin) o athrawon ifanc brwdfrydig fyddai ar gael I lenwi bylchau / cyflenwi / cynnal gwersi ymyrraeth. Byddai'r athrawon yn derbyn eu cymhwyster ANG a'r ysgol yn elwa o gael bobl sy'n dyrn I'r ysgol ac yn ran o'r systemau. Yn anfodus does dim o'r arian gyda'r ysgol hon I wneud hynny. |

| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) | |
|---|---|
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | x |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |

| |
|---|
| **Cwestiwn 4 –** Beth yw eich barn ar Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus athrawon cyflenwi ac effaith bosibl y Model Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol? |
| Gweler cwestiwn 3 o dan yr amodau yna wrth gwrs byddai / dylai'r ysgol ymrwymo I'r uchod. Os ydym yn son am athrawon sy'n cael eu cyflogi fesul diwrnod anhebyg y bydd yr uchod yn cael blaenoriaeth. |

| | |
|---|---|
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? | |
| | |
| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) | |
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | x |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |
| **Cwestiwn 5** – Beth yw eich barn ar drefniadau rheoli perfformiad ar gyfer athrawon cyflenwi? | |
| Eto mae'n dibynnu ar yr amodau – yr un ag yr ateb I gwestiwn 4 | |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? | |
| | |
| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) | |
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | X |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |
| **Cwestiwn 6** – A ydych o'r farn bod gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ddigon o oruchwyliaeth dros y defnydd o athrawon cyflenwi? | |
| Na, nid yw hyn yn rhywbeth sydd erioed wedi ei godi fel mater o gonsyrn yn y trafodaethau gyda'r sir na'r GCA. | |

| | |
|---|---|
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? | |
| | |
| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) | |
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | x |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |
| **Cwestiwn 7 –** A ydych yn ymwybodol o unrhyw amrywiaeth leol a rhanbarthol yn y defnydd o athrawon cyflenwi? Os felly, a oes rhesymau am hynny? | |
| Rwyf yn gwybod am rai siroedd sydd yn mynnu bod ysgolion yn mynd trwy asiantaethau, mae hyn yn fy nhyb i yn anfoesol oherwydd yr arian mae asianteithiau yn cymryd o dal yr athawon cyflenwi. Nid ydym yn defnyddio asianteithiau yn yr ysgol hon.  Y rheswm siwr o fod yw cyfleustra.  O ran yr athrawon mae'r asiantaeth yn danfon, nid oes rheolaeth a gall fod yn rhywun nad ydych yn dymuno defnyddio. | |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? | |
| | |
| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) | |
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | x |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn 8** – A oes gennych unrhyw farn ar asiantaethau cyflenwi a'u trefniadau sicrhau ansawdd? | |
| Pa drefn sicrhau ansawdd – gweler fy ateb I gwestiwn 7. | |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? | |
| | |
| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) | |
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | x |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |
| **Cwestiwn 9** – A ydych yn ymwybodol o unrhyw faterion penodol yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg? Os felly, beth ydynt? | |
| Prinder staff addas i apwyntio i swyddi parhaol, prinder staff fel athrawon cyflenwi hir dymor. | |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? | |
| Ricriwtio mwy o staff ifanc addas I'r proffesiwn. | |
| Pa mor arwyddocaol yw'r mater hwn? (Dewiswch un opsiwn) | |
| *1 – Mae hon yn broblem fawr a brys.* | x |
| *2 – Mae hon yn broblem sydd angen sylw.* | |
| *3 – Mae hon yn broblem fach.* | |
| *4 – Nid yw'n broblem.* | |

| |
|---|
| **Cwestiwn 10** – Os byddai'n rhaid ichi wneud un argymhelliad i Lywodraeth Cymru o'r holl bwyntiau rydych wedi'u nodi, beth fyddai'r argymhelliad hwnnw? |
| Mae angen gwneud dysgu yn atyniadol. Dylid edrych eto ar y polisi prin cyflenwi. |
| **Cwestiwn 11** – A oes gennych unrhyw sylwadau neu faterion eraill yr hoffech eu codi na soniwyd amdanynt yn y cwestiynau penodol? |
| |